**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**003 - Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 3 Tachwedd 2021

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Gwneud Negyddol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Diben y Rheoliadau hyn yw mynd i'r afael â methiannau yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Bydd hyn yn sicrhau y gall rheolaethau iechyd ar gyfer planhigion ac anifeiliaid weithredu'n effeithiol i amddiffyn bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a'r trydydd gwledydd perthnasol.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd i gywiro diffygion sy'n ymwneud ag iechyd planhigion, hadau a thatws hadyd sydd wedi codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn cywiro gwallau mewn amryw offerynnau statudol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi bod y Rheoliadau:

> *"...yn rhoi swyddogaethau i Sefydliad Diogelu Planhigion Cenedlaethol Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Gall y swyddogaethauhyn fod yn swyddogaethau awdurdod neilltuedig at ddibenion paragraff 8(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o'r herwydd maent yn cynrychioli cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol."*

Nid yw'r datganiad yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd na pha rai o bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Mae cynghorwyr cyfreithiol yn argymell y dylid gofyn am eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt a sut y gall y Rheoliadau gyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Gan ei bod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 26 Hydref 2021, beth fydd effaith bosibl y Rheoliadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.